

Llawn dop?



Y berthynas rhwng amlder safleoedd gwerthu a'r niwed sy'n deillio ag alcohol

Cyflwyniad

Mae'n eithaf amlwg erbyn bod dwy brif ffordd i leihau'r niwed sy'n deillio o alcohol: codi pris alcohol, a'i wneud yn fwy anodd neu'n fwy anghyfleus ei gael.¹ Po fwyaf o lefydd y mae alcohol ar gael a pho hawsaf yw ei gael, y mwyaf ohono y gellir ei yfed; a'r mwyaf fydd y duedd i yfed yn aml ac yn ormodol ddod yn normal a derbyniol o fewn cymdeithas. Mae hyn wedyn yn gwaethygu problemau sy'n ymwneud ag alcohol.²

Mae clystyru nifer fawr o safleoedd gwerthu alcohol mewn ardal ddaearyddol fach yn fwyfwy cyffredin yng nghanol trefi a dinasoedd ym Mhrydain. Mae alcohol, felly, yn haws ei gael, ac ar gael mewn mwy o lefydd yn yr ardaloedd hyn na mewn mannau eraill. Oherwydd hyn, mae trafodaethau am amlder safleoedd gwerthu alcohol fel arfer yn canolbwyntio ar effaith y fath glystyrau o safleoedd trwyddedig yng nghanol ein trefi. Mae'r papur hwn yn edrych yn fanylach ar bwnc amlder safleoedd gwerthu alcohol ac yn gofyn a fydd lleihau faint o lefydd y gellir prynu alcohol hefyd yn lleihau'r niwed sy'n deillio o alcohol.

Twf trwyddedu

"Mae tensiwn sydd i'w weld drwy gydol hanes trwyddedu alcohol, sef cydbwysio rhwng y rhyddid i werthu ac yfed alcohol a'r awydd i gyfyngu ar effeithiau cymdeithasol niweidiol yfed alcohol."

Yr Athro Roy Light, Prifysgol Gorllewin Lloegr³

Yn 1953, roedd tua 61,000 o lefydd gyda thrwydded i werthu alcohol i'w yfed ar y safle (tafarndai a bariau) yng Nghymru a Lloegr. Erbyn 2003 roedd y ffigur hwn wedi cynyddu i tua 78,500.⁴ At hynny, mae nifer y siopau trwyddedig wedi dyblu, bron, o 24,000 yn 1953 i fwy na 45,000 erbyn hyn. Yn 2010, roedd y cyfanswm mwyaf ers 100 mlynedd o safleoedd â thrwydded i werthu alcohol i'w yfed ar y safle, neu i'w yfed ar y safle ynteu i fwrdd ohono.⁵

Yn allweddol, mae llawer o'r safleoedd newydd hyn yng nghanol trefi a dinasoedd, lle mae mwy o bobl, ac maent yn agos at ei gilydd. Yn ystod y blynyddoedd diweddar, gwelwyd datblygiad yr 'archdafarn' – mannau yfed modern lle gall hyd at ugain gwaith mwy o bobl yfed nag mewn tafarn draddodiadol; a hefyd 'bariau camelion' sy'n newid o fod gaffi-bariau liw dydd i fod yn fariau dawnsio gyda'r nos.⁶ Un o ganlyniadau amlycaf



Briff Alcohol Concern Cymru



Alcohol Concern
Meddwl yn Gall am Alcohol



Llawn dop?

Briff Alcohol Concern Cymru

hyn yw bod lle i lawer mwy o yfwyr yng nghanol llawer o drefi. Ym Manceinion, er enghraifft, cynyddodd cyfanswm y bobl roedd lle iddynt yfed yn holl dafarndai a chlybiau canol y ddinas 240% rhwng 1997 a 2001.⁷ *

Mae'r newidiadau hyn ar y cyfan yn ganlyniad i lacio'r rheoliadau trwyddedu. Yn benodol, bu i Ganllawiau Arferion Da Cymdeithas yr Ynadon a Chymdeithas Clercod yr Ustusiaid, a gyhoeddwyd yn 1999 ar ôl Adolygiad gan y Swyddfa Gartref yn 1998, gael gwared ar y gallu a oedd gan awdurdodau trwyddedu i asesu ceisiadau am drwyddedau ar sail 'angen'. Roedd hyn yn ganlyniad i ddegawdau o bwysau dros ddiwygio'r rheolau. Bu pleidwyr trefn fwy rhyddfrydig yn dadlau ers tro na ddylai fod yn rhan o swyddogaeth ustusiaid trwyddedu asesu a oedd galw yn y farchnad am drwyddedau newydd, na chwaith gwarchod y rhai a oedd eisoes yn dal trwyddedau rhag cystadleuwr newydd.⁸

Llaciodd Deddf Trwyddedu 2003 ragor ar y rheolau trwyddedu. Trosglwyddwyd cyfrifoldeb am drwyddedu oddi wrth ustusiaid mewn llysoedd ynadon i bwyllgorau trwyddedu awdurdodau lleol. Nododd y Ddeddf bedwar amcan i'r awdurdodau trwyddedu:

- atal troseddu ac anhrefn
- atal niwsans cyhoeddus
- diogelwch y cyhoedd
- gwarchod plant rhag niwed.

* Nid yw cyfrif faint o drwyddedau alcohol sydd mewn unrhyw ardal yn gwahaniaethu rhwng bariau a thafarndai o wahanol fathau a meintiau. I wneud cyfrif ystyrlon, mae rhaid ystyried faint o yfwyr y mae lle iddynt ar unrhyw adeg. Sonir am hyn weithiau fel 'capasiti trwyddedu'.

Roedd disgwyl i awdurdodau lleol roi trwyddedau'n awtomatig oni bai y byddai gwneud hynny'n groes i un neu ragor o'r rhain. Dyma'r sefyllfa o hyd, er bod newidiadau diweddar wedi cael eu cyflwyno drwy Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, gan gynnwys tâl newydd i gyfrannu at gostau plismona anhrefn gyda'r nos, i'w godi fel y gwêl awdurdodau lleol yn dda ar safleoedd sydd ar agor ar ôl hanner nos.

Twf diota

Cymysg braidd fu canlyniadau ymchwil i'r cysylltiad rhwng amlder manau i brynu alcohol â faint o alcohol a yfir. Canfu astudiaethau yn UDA a fu'n canolbwyntio ar fyfyrwyr coleg, er enghraifft, fod cysylltiadau clir rhwng amlder safleoedd gwerthu alcohol o gwmpas colegau a phylliau o orfed a phroblemau cysylltiedig.⁹ ^{10, 11} Serch hynny, canfu astudiaeth arall nad oedd perthynas rhwng faint o safleoedd gwerthu alcohol a faint o yfed oedd mewn 82 gymdogaeth yng Nghaliffornia.¹²

Un ffactor sy'n debygol o gynyddu'r perygl o fwy o yfed yw'r berthynas rhwng amlder a phris. Lle mae nifer fawr o safleoedd gwerthu mewn ardal ddaearyddol fach, mae'n fwy tebygol i ddiodydd gael eu gwerthu'n rhatach wrth i'r safleoedd gystadlu â'i gilydd. Mae prisiau is yn cynyddu'r galw am alcohol ac felly'n hwyluso yfed trymach.¹³ Hefyd, mae cronni nifer o safleoedd gwerthu mewn ardal fach yn ei gwneud hi'n fwy cyfleus i'r darpar yfwr, gan ei fod yn llai tebygol o angen cludiant neu gynllunio ymlaen llaw i brynu alcohol, dau ffactor a allai ei atal rhag ei brynu fel arall.¹⁴

Twf trais

Er bod prinder tystiolaeth am y cysylltiad rhwng amlder safleoedd gwerthu ac yfed,

Llawn dop?

Briff Alcohol Concern Cymru

mae tystiolaeth lawer cryfach am y cysylltiad â thrais sy'n ymwneud ag alcohol.¹⁵ Mae nifer o astudiaethau rhyngwladol wedi nodi bod cysylltiad rhwng amlder a thrais corfforol.^{16, 17, 18, 19, 20, 21}

Un esboniad yw bod gosod nifer o safleoedd gwerthu yn agos at ei gilydd yn dod â mwy o bobl ynghyd – yn aml, dynion ifanc meddw sy'n symud rhwng y safleoedd, ac sy'n gallu bod yn ddiodefwr neu'n ysgogwyr y trais.²² Mae amlder safleoedd gwerthu hefyd yn gallu golygu bod tyrfeydd yn cael eu gwasgu ynghyd, ac mae mannau gorlawn yn aml yn sbardun

i drais, yn enwedig lle mae nifer sylweddol o bobl feddw. Efallai hefyd fod ardaloedd lle mae llawer o safleoedd gwerthu alcohol yn denu unigolion sy'n dueddol o ymddwyn yn dreisgar.²³

Canfu astudiaeth arall o Galiffornia fod amlder safleoedd gwerthu yn dylanwadu ar faint o drais oedd yn yr ardal dan sylw, a hefyd yn yr ardaloedd cyfagos. Amcangyfrifodd yr awduron y byddai lleihad o un safle ar gyfartaledd ym mhob un o'r 581 ardal côd post yn yr astudiaeth yn golygu 290 yn llai o ymosodiadau dros gyfnod y dadansoddiad, sef chwe blynedd.²⁴

Astudiaeth achos: Caerdydd

Mae mwy o drwyddedau i werthu alcohol am bob metr sgwâr yng nghanol Caerdydd nag yng nghanol yr un ddinas arall ym Mhrydain.²⁵ Amcangyfrifir bod economi nos Caerdydd yn werth £413m y flwyddyn, ac yn cyflogi mwy na 11,000 o bobl.²⁶ Er gwaethaf gwerth economaidd digamsyniol y fasnach hon, yn ystod y blynyddoedd diweddar mae rhai wedi dod i ystyried canol y ddinas yn fan anhyfryd gyda'r nos, wedi'i neilltuo ar gyfer yfed trwm.²⁷

O dan ganllawiau statudol sy'n cyd-fynd â Deddf Trwyddedu 2003, gall awdurdodau trwyddedu weithredu polisi effaith gynyddol neu 'llawnder' mewn ardaloedd lle mae llawer o broblemau sy'n ymwneud ag alcohol. Mae hyn yn golygu bod rhagbybiaeth y gellir ei gwrthdroi y bydd unrhyw gais am drwydded yn yr ardal yn cael ei wrthod.

Mae Cyngor Caerdydd wedi pennu dwy ardal 'llawnder' fach yn y ddinas. Heol Eglwys Santes Fair a Heol Fawr yw un ohonynt – ardal boblogaidd ar gyfer yfed yn hwyr y nos a lle mae nifer fawr o safleoedd trwyddedig. Gwnaeth Alcohol Concern arolwg sydyn yn 2011 o safleoedd lle mae alcohol ar gael i'w brynu yn y strydoedd hyn. Canfu fod gan gyfanswm o 40% o'r holl safleoedd busnes yn yr ardal drwydded i werthu alcohol. Siopau trwyddedig oedd 10% o'r safleoedd trwyddedig hyn, a mynegwyd pryderon arbennig y gall y siopau hyn ei gwneud hi'n haws i bobl yfed ymlaen llaw cyn mynd wedyn i dafarnau a chlybiau, a hefyd fod rhai ar agor yn ddigon hwyr i fod yn rhan o nosweithiau yfed gyda'r hwyr eu hunain. Disgrifiodd yr Athro Jonathan Shepherd, Cyfarwyddwr Grŵp Ymchwil Trais a Chymdeithas Prifysgol Caerdydd, benderfyniad diweddar i ganiatáu i Sainsbury's werthu alcohol tan 9pm ar Heol Eglwys Fair fel "trychineb"²⁸ gan fynegi siom pa mor hawdd oedd hi i'r archfarchnad wrthdroi penderfyniad gwreiddiol yr awdurdod trwyddedu i atal gwerthu ar ôl 6pm.²⁹



Llawn dop?

Briff Alcohol Concern Cymru

Trafodaeth

Mae amryw astudiaethau'n awgrymu'n eglur y gallai cyfyngu ar amllder safleoedd gwerthu alcohol mewn unrhyw gymuned fod yn ddull effeithiol i leihau'r problemau sy'n ymwneud ag alcohol, drwy:

- gynyddu'r amser a'r anghyfleustra i yfwyr gael gafael ar alcohol
- cyfyngu ar gystadlu rhwng manwerthwyr, ac felly lleihau'r demtasiwn i ostwng prisiau neu i werthu i rai dan 18 oed
- osgoi'r tyrfaoedd mawr sy'n aml yn ganlyniad i osod nifer o safleoedd gwerthu'n agos at ei gilydd, ac sy'n gallu arwain at fwy o drais.³⁰

Anodd, er hynny, yw gweld modd ymarferol i leihau amllder mannau gwerthu alcohol. Trafferthus yn y gorffennol fu gwrthod trwyddedau ar sail angen, gan ddenu beirniadaeth ei fod yn rhwystro cystadlu teg, gan fod yr manwerthwyr oedd eisoes â thrwydded yn cael mantais annheg dros rai eraill oedd yn ceisio dod i mewn i'r farchnad,³¹ yn ogystal â beirniadaeth ei fod yn atal twf yn yr economi'r nos. Gellid dadlau mai polisïau llawnder lleol neu Bolisïau Traweffaith Gynyddol (CIPs) yw'r mesurau agosaf sydd gennym at gyfyngiadau ar sail angen, ond gellir beirniadu'r rhain yn yr un modd, ac mae penderfyniadau i wrthod trwyddedau yn aml yn cael eu gwrthdroi ar apêl, yn enwedig ceisiadau i werthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle. At hynny, gan nad oes modd defnyddio polisïau o'r fath i ddiddymu trwyddedau a roddwyd eisoes, gellir dadlau nad ydynt yn mynd i'r afael ag ardaloedd sydd eisoes yn orlawn. Yn ei Strategaeth Alcohol, a gyhoeddwyd ym Mawrth 2012, ceisiodd

Llywodraeth y Deyrnas Unedig fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn trwy ddiwygio'r canllawiau statudol sy'n cyd-fynd â Deddf Drwyddedu 2003 i wneud yn glir bod CIPs yn cynnwys siopau yn ogystal â thafarndai, a thrwy ei gwneud yn haws i awdurdodau lleol gyflwyno'r fath bolisiau trwy leihau maint y dystiolaeth sydd ei hangen er mwyn eu cyfiawnhau.³²

Mae deddfwriaeth drwyddedu'r Alban yn mynd ati'n fwy uniongyrchol trwy wneud amllder yn ffactor allweddol a phenodol mewn penderfyniadau trwyddedu. Cafodd byrddau trwyddedu bwerau i wrthod cais am drwydded newydd pe bai'n arwain at 'orddarpariaeth', yn ôl tystiolaeth sy'n ymwneud â'r amcanion trwyddedu. Rhaid i'r byrddau fod yn rhagweithiol wrth nodi unrhyw orddarpariaeth sydd ar hyn o bryd ac a all ddod yn y dyfodol o ran nifer a maint safleoedd trwyddededig. Felly mae hyblygrwydd ganddynt i gyfyngu ar un math o safle (er enghraifft, clybiau nos) lle mae tystiolaeth bod gorddarpariaeth, ond ar yr un pryd caniatáu math arall o safle (er enghraifft, bwytai trwyddedig) lle nad oes tystiolaeth o'r fath. Yn ddiweddar, adroddwyd bod Cyngor Dinas Caeredin yn ystyried capio nifer y siopau trwyddedig yn y ddinas ar y sail hon, sef gorddarpariaeth.³³ Mae'r canllawiau sy'n cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth yn nodi nad yw hi'n fwriad i fesurau o'r fath "gyfyngu ar fasnach, ond gall fod eu hangen i gadw trefn gyhoeddus, gwarchod amwynder cymunedau lleol, a lliniaru'r effeithiau anwydol ar iechyd o ganlyniad i gynydd yfed alcohol yn sgîl cynyddu amllder safleoedd."³⁴

Er gwaethaf mesurau newydd yng Nghymru a Lloegr a gyflwynwyd o dan Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011,

Llawn dop?

Briff Alcohol Concern Cymru



sy'n galluogi mwy o bobl i wrthwynebu rhoi trwyddedau neu'u hestyn, mae angen rhoi rhagor o lais o hyd i bob rhan o'r gymuned am benderfyniadau trwyddedu sy'n effeithio ar eu bywydau. Mynegwyd pryderon yn gyson am effeithiau negyddol niferoedd mawr o safleoedd trwyddedig yn ein trefi. Canfu arolwg gan YouGov yn 2009 fod 45% o oedolion yng Nghymru yn ystyried canol eu tref yn ardal i'w hosgoi oherwydd problemau yn ymwneud ag alcohol.³⁵

At hynny, yn aml iawn nid yw penderfyniadau trwyddedu'n ystyried y peryglon i iechyd cyhoeddus. Mae newidiadau diweddar i ddeddfwriaeth wedi rhoi pwerau i Fyrddau Iechyd yng Nghymru ac i Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol yn Lloegr wrthwynebu trwyddedau yn yr un modd ag y mae cyrff fel yr heddlu a brigadau tân yn gallu gwneud. Fel rhan o ymroddiad i roi pwerau cryfach i reoli amlder safleoedd trwyddedig, mae Strategaeth Alcohol Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cynnig gwneud iechyd yn un o'r meini prawf ar gyfer penderfyniadau trwyddedu.³⁶ Yn yr Alban, mae gwarchod a gwella iechyd cyhoeddus eisoes yn amcan trwyddedu penodol ers 2009, a gellir gwrthod neu ddiddymu trwyddedau lle y maent yn groes i'r amcan hwn.

Mae'n amlwg bod cynllunwyr trefol ac awdurdodau trwyddedu o dan bwysau cynyddol i gael y cydbwysedd cywir rhwng creu amgylchedd deniadol a bywiog gyda'r nos, a sirchau nad yw canol trefi wedi'u neilltuo'n llwyr ar gyfer gwerthu alcohol a'i yfed. Er mwyn eu cefnogi yn hyn o beth, mae Alcohol Concern yn gwneud yr argymhellion canlynol:

Argymhellion

1. Dylai Cymru a Lloegr ddilyn yr enghraifft sydd yn neddfwriaeth drwyddedu'r Alban, sy'n dweud yn benodol fod angen i awdurdodau trwyddedu ystyried nifer a maint safleoedd trwyddedig yn eu hardaloedd wrth wneud eu penderfyniadau trwyddedu. Fel yn yr Alban, dylai gwarchod iechyd cyhoeddus fod yn bumed amcan y Ddeddf Trwyddedu yng Nghymru a Lloegr. Byddai hyn yn galluogi cyrff trwyddedu i ystyried effaith trwyddedau i werthu alcohol i'w yfed ar y safle neu i ffwrdd ohono ar iechyd cyhoeddus, gan seilio'u penderfyniadau ar ddata iechyd lleol cadarn.
2. Dylai awdurdodau trwyddedu a'r heddlu barhau i archwilio a mabwysiadu mentrau lleol a all liniaru ar effeithiau crynhoi llawer o safleoedd gwerthu alcohol mewn trefi. Mae amrywiaeth fawr o ddulliau posibl, gan gynnwys:
 - annog safleoedd i gymryd rhan mewn cynlluniau 'pubwatch' lleol a chynlluniau cyffelyb
 - annog defnyddio gwydr gwydn a gwydrau polycarbonad i leihau anafiadau, a chynlluniau casglu sbwriel i glirio arfau posibl o'r stryd
 - gwella teledu cylch cyfyng mewn mannau lle y bu llawer o drafferthion, a thargedu patrolau stryd
 - cynyddu gwasanaethau fel canolfannau asesu meddygol, a thai bach dros dro yn ystod cyfnodau prysur, er enghraifft dros y Nadolig
 - defnyddio Gorchmynion Cyfyngu yn y Bore Bach i atal gwerthu alcohol ar ôl amser penodol



Llawn dop?

Briff Alcohol Concern Cymru

- ystyried cael amseroedd cau gwahanol i safleoedd trwyddedig i reoli'r cwsmeriaid sy'n gwasgaru wrth ddod allan ohonynt
- creu parthau cerddwyr dros dro/parhaol mewn ardaloedd adloniant er mwyn i'r tyrfaoedd lifo'n haws ac i atal damweiniau traffig ar y ffordd.

3. Rhaid i drigolion lleol gael cyfle i leisio'u barn am amlder safleoedd gwerthu alcohol a chael mwy o lais am benderfyniadau trwyddedu yn eu hardal. Gellir gwneud hyn drwy annog pob awdurdod lleol i neilltuo cyfran o'u cyllideb drwyddedu i ariannu fforwm trwyddedu i drigolion lleol, a/neu i ystyried ychwanegu aelodau lleyg o'r gymuned leol at bwyllgorau trwyddedu.

Cyfeiriadau

- 1 Babor, T. et al. (2010) *Alcohol: No ordinary commodity: Research and public policy*, Rhydychen, Gwasg Prifysgol Rhydychen.
- 2 *ibid.*
- 4 Uned Strategaeth y Prif Weinidog (2003) *Interim analytical report for the national harm reduction strategy*, Llundain, Uned Strategaeth y Prif Weinidog.
- 5 Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (2010) *DCMS national statistics bulletin: Alcohol, entertainment and late night refreshment licensing: England and Wales, April 2009 – March 2010*, Llundain, Uned Tystiolaeth a Dadansoddi DCMS.
- 6 Hobbs, D. et al. (2003) *Bouncers: Violence and governance in the night-time economy*, Rhydychen, Gwasg Prifysgol Rhydychen.
- 7 *ibid.*
- 8 Light, R. a Heenan, S (1999) *Controlling supply: The concept of 'need' in liquor licensing*, Bryste, Prifysgol Gorllewin Lloegr.
- 9 Chaloupka, F. J. a Wechsler, H. (1996) *Binge drinking in college: the impact of price, availability, and control policies*, *Contemporary Economic Policy*, 14, tudalennau 112-124.
- 10 Wechsler, H. et al. (2002) *Secondhand effects of student alcohol use reported by neighbours of colleges: The role of alcohol outlets*, *Social Science & Medicine*, 55, tudalennau 425-435.
- 11 Weitzman, E. R. et al. (2003) *The relationship of alcohol outlet density to heavy and frequent drinking and drinking-related problems among college students at eight universities*, *Health Place*, 9, tt1-6.
- 12 Pollack, C. E. (2005) *Neighbourhood deprivation and alcohol consumption: Does availability of alcohol play a role?* *International Journal of Epidemiology*, 34, tudalennau 772-780.
- 13 Comisiwn Cyfraith Seland Newydd (2010) *Alcohol in our lives: Curbing the harm*, ar-lein, ar gael trwy: <http://www.alcoholaction.co.nz/pdfs/Law%20Commission%20Report.pdf> [defnyddiwyd 07/08/2011].
- 14 *ibid.*
- 15 *op. cit.* Babor, T. et al. (2010).
- 16 Parker, R. N. a Rebhun, L. A. (1995) *Alcohol and homicide: A deadly combination of two American traditions*, Albany, Efrog Newydd, Gwasg Prifysgol Talaith Efrog Newydd.

Llawn dop?

Briff Alcohol Concern Cymru



- 17 Stevenson, R. J., Lind, B. a Weatherburn, D. (1999) *The relationship between alcohol sales and assault in New South Wales, Australia*, *Addiction*, 94, tudalennau 397-410.
- 18 Gorman, D. M., Zhu, L. a Horel, S. (2005) *Drug 'hot-spots', alcohol availability and violence*, *Drug and Alcohol Review*, 24, tudalennau 507-13.
- 19 Norström, T. (2000) *Outlet density and criminal violence in Norway, 1960-1995*, *Journal of Studies on Alcohol and Drugs*, 61, tudalennau 907-911.
- 20 Livingstone, M. (2007) *Alcohol outlet density and assault: A special analysis*, *Addiction*, 103, tudalennau 619-628.
- 21 Pridemore, W. A. a Grubestic, T. H. (2011) *Alcohol outlets and community levels of interpersonal violence: Spatial density, type of outlet, and seriousness of assault*, *Journal of Research in Crime*, ar-lein 17 Mai 2011.
- 22 op. cit. Livingstone, M. (2007).
- 23 op.cit. Norström, T. (2000).
- 24 Gruenewald, P.J., Freisthler, B., Remer, L., LaScala, E. A., a Treno, A. (2006) *Changes in outlet densities affect violence rates*, *Alcoholism: Clinical and Experimental Research*, 30, tudalennau 1184-1193.
- 30 Livingstone, M. Chikritzhs, T. a Room, R. (2007) *Changing the density of alcohol outlets to reduce alcohol-related problems*, *Drug and Alcohol Review*, 26, tudalennau 557-566.
- 31 ibid.
- 32 Llywodraeth ei Mawrhydi (2012) *The Government's alcohol strategy*, Llundain, Swyddfa Gartref, ar-lein, ar gael trwy: <http://www.homeoffice.gov.uk/publications/alcohol-drugs/alcohol/alcohol-strategy> [defnyddiwyd 30/03/2012].
- 33 Boggis, C. (2012) *Edinburgh mulls cap on off-licenses*, *Off-licence News*, ar-lein, ar gael trwy: http://www.offlicencenews.co.uk/news/fullstory.php/aid/12653/Edinburgh_mulls_cap_on_off-licences.html [defnyddiwyd 13/02/2012].
- 34 Gweithrediadaeth yr Alban (2007) *Licensing (Scotland) Act 2005 - Section 142 – Guidance for licensing boards*, ar-lein, ar gael trwy: <http://www.scotland.gov.uk/Resource/Doc/175487/0049459.pdf> [defnyddiwyd 13/02/2010].
- 35 Arolwg YouGov yn 2009 ar ran Alcohol Concern. Copiau ar gael gan Alcohol Concern Cymru.
- 36 op. cit. Llywodraeth ei Mawrhydi (2012).

Llawn dop?

Alcohol Concern

Alcohol Concern yw'r elusen genedlaethol ar gamddefnyddio alcohol, gan ymgychu dros bolisiau alcohol effeithiol a gwell gwasanaethau i bobl sy'n byw gyda phroblemau'n yn ymwneud ag alcohol. Rydym yn gweithio'n genedlaethol i ddylanwadu ar bolisi alcohol ac yn lleol i hybu'r ymarfer gorau. Rydym yn cefnogi proffesiynolion a sefydliadau trwy ddarparu arbenigedd, gwybodaeth a chynghor. Rydym yn herio'r diwydiant diodydd ac yn hybu ymwybyddiaeth ynghylch materion alcohol.

Briff Alcohol Concern Cymru

Cyhoeddwyd gan Alcohol Concern,
ar ran Alcohol Concern Cymru,
8 Museum Place, Caerdydd, CF10 3BG

Ffôn: 029 2022 6746

E-bost: acwales@alcoholconcern.org.uk

Gwefan: www.alcoholconcern.org.uk

Hawlfraint: Alcohol Concern Mehefin 2012

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn mewn unrhyw ffurf (gan gynnwys llungopïo neu storio mewn unrhyw gyfrwng electronig), neu ei drosglwyddo mewn unrhyw ddull heb ganiatâd y cyhoeddwr a pherchenogion yr hawlfraint.

Darparwyd y llun gan iStockphoto.

Mae Alcohol Concern yn elusen gofrestredig rhif 291705 ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant a gofrestrwyd yn Llundain rhif 1908221.



Alcohol Concern
Meddwl yn Gall am Alcohol